



ATAL trais yn y fferyllfa

Mai 2017

www.the-pda.org

1. CYFLWYNIAD

Dylai diogelwch personol fod yn fater sydd o gonsyrn i bawb yn amgylchedd heddiw. Mae'n brif flaenoriaeth i'r Gymdeithas Amddiffyn Fferyllwyr (PDA) a gweithiwn yn ddiflino i wneud yn siwr fod cyflogwyr, rheoleiddwyr ac eraill hefyd yn trin eich diogelwch fel eu blaenoriaeth nhw hefyd.

Mae rôl rheng-flaen fferyllwyr a'u cydweithwyr yn arwain at gysylltiad ag ymddygiad ymosodol, camdriniaeth a thrais oherwydd eu bod mewn cyswllt rheolaidd a chyson gyda'r cyhoedd, yn aml pan mae cleifion a chwsmeriaid dan bwysau.

Mae un ymosodiad yn un ymosodiad yn ormod. Dangosodd arolygon blaenorol gan y PDA a The Chemist and Druggist fod trais mewn fferyllfeydd yn ddealladwy yn bryder sylweddol i staff Fferyllfeydd.

Cefndir:

Cyhoeddodd y Llywodraeth ymagwedd dim goddefgarwch mewn gofal sylfaenol ac eilaidd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a rhoddodd ganllawiau ar gyfer meddygfeydd teulu ym mis Mawrth 2013. Seiliodd yr Adrannau Iechyd yng Nghymru a Lloegr yr ymagwedd ar ddiffiniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o drais cysylltiedig â gwaith fel:

“Unrhyw ddigwyddiad lle caiff person ei gam-drin, ei fygwth neu yr ymosodir arno/arni mewn amgylchiadau’n gysylltiedig â’u gwaith”

Mae’r diffiniad hwn yn amlwg yn cynnwys amgylchiadau y mae fferyllwyr yn gweithio ynddynt, p’un ai ydynt yn berchennog-weithredwyr, yn cael eu cyflogi mewn ysbyty neu osodiadau cymunedol neu ar gontract fel fferyllwyr locwm hunangyflogedig.

Gall digwyddiadau gynnwys ymosodiad corfforol difrifol. Er enghraifft, mewn digwyddiad mewn fferyllfa gymunedol yn Belfast ym mis Ebrill 2017, cafodd dau fferylllydd eu trywanu gan berson yn ceisio cael Tramadol.

Mae deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn rhoi cyfrifoldeb ar gyflogwyr, gweithwyr cyflogedig a chontactwyr i ddatblygu amgylchedd gwaith mwy diogel. Mae Cod Moeseg Fferyllfeydd yn ei gwneud yn ofynnol i fferyllwyr a chyflogwyr yn neilltuo i gydymffurfio gyda’r deddfwriaeth.

Ysyaeth mae ein haelodau’n dweud wrthym eu bod yn teimlo fod rhai cyflogwyr fferyllfeydd cymunedol yn tueddu i fychanu cam-drin llafar ac yn araf i atal neu wahardd cleifion/cwsmeriaid o’u fferyllfeydd. Nid ydynt yn teimlo fod staff yn cael eu cefnogi’n llawn gan gyflogwyr.

Gall hyn arwain at normaleiddio ymddygiad ymosodol a bygythiol. Rydym hyd yn oed yn clywed adroddiadau yr anfonwyd talebau neu fasgedi rhodd i gleifion/cwsmeriaid sydd wedi camdrin fferyllwyr er mwyn cymodi gyda nhw er boed y fferylllydd yn dilyn y gweithdrefnau cyfreithiol, moesegol a chywir i adrodd camdriniaeth.

1.1 Polisi'r PDA ar Drais yn y Fferyllfa

Ar ôl ymgynghoriad manwl cyhoeddodd y PDA ddogfen i fynegi ei gefnogaeth i wella diogelwch personol pobl yn gweithio mewn fferyllfeydd.

Dyma brif elfennau'r polisi:

Bydd y PDA yn gweithio i sicrhau:

- Polisi dim goddefgarwch trais yn erbyn staff yn gweithio mewn fferyllfa, yn cynnwys cam-drin geiriol, sectaraidd neu hiliol tuag at fferyllwyr a staff fferyllfa.
- Gofyniad i bob perchennog fferyllfa gynnal asesiad risg ar lefel safle unigol a chyhoeddi datganiad a ddiffiniwyd yn glir ar risg trais.
- Mesurau addas i'r sefyllfa, fel y'u dynodwyd gan asesiad risg, yn cael eu gweithredu i ostwng risgiau trais.
- Cyllid ar gyfer mesurau diogelwch gan y llywodraeth i gynorthwyo contractwyr fferyllfa gyda'u gweithredu.
- Safonau rheoleiddiol sy'n gosod gofynion mwy cadarn ar berchnogion fferyllfa, goruchwylwyr, prif fferyllwyr a rheolwyr i sicrhau diogelwch staff.

Mae'r polisi llawn ar gael ar wefan y Gymdeithas yn www.the-pda.org

1.2 Pecyn Adnoddau Diogelwch Personol y PDA

Mae'r pecyn hwn ar gyfer perchnogion a chyflogwyr, gweithwyr cyflogedig a gweithwyr locwm. Mae'n rhoi gwybodaeth ar sut i ostwng a rheoli risg trais mewn fferyllfa yn y lle cyntaf - yn ogystal â beth i'w wneud os bydd ymosodiad treisgar.

Mae'n sail i bolisi'r PDA ac yn helpu fferyllwyr i gydymffurfio gyda'u goblygiadau cyfreithiol (deddfwriaeth lechyd a Diogelwch) a rheoliadau fferyllfa.

Yn bwysicach, drwy amlinellu ac annog gweithredu mesurau rheoli risg addas, gall y pecyn hwn gyfrannu'n sylweddol at ddiogelwch personol.

Nid yw'r pecyn hwn yn astudiaeth academaidd o achosion ac effeithiau economaidd a chymdeithasol trais, mae'n llywio darllenwyr drwy broblemau ymarferol a datrysiadau.

1.3 Cynnwys y Pecyn

2. Y Ffactorau Risg: Cefndir i ymosodol, ymddigiad cam-drin a thrais.	Tud. 6
3. Asesiad Risg: Techneg a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer fferyllfa, i bennu gwir natur y risg mewn amgylcheddau unigol.	Tud. 8
4. Asesu Risg Canllaw ymarferol i leihau risg yn dilyn asesiad risg.	Tud. 9
5. Sicrhau Newid: Nodiadau ac arweiniaid i locwm a weithwyr.	Tud.14
6. Beth i'w wneud mewn ymosodiad posibl: Canllawiau ar sut i ddelio a sefyllfaoedd sydd a'r potensial i fod yn beryglus.	Tud. 15
7. Materion yn dilyn digwyddiad: Delio a dioddefwyr, iawndal a materion cyfreithiol.	Tud. 15
8. Gwybodaeth Bellach Gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael	
Atodiadau: Ffurflen asesu risg PDA ac enghraifft o gyfathrebiadau	1 a 2

2. Y FFACTORAU RISG

Caiff y ffactorau sy'n gwneud cyswllt i drais yn y fferyllfa yn fwy neu llai tebygol eu categoreiddio dan bedwar pennawd syml. Mewn realaeth, wrth gwrs, mae cysylltiad annatod rhwng y ffactorau.

2.1 Lleoliad

Ymddengys mai lleoliad ffisegol fferyllfa yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol wrth benderfynu'r risg o drais. Er na fydd unrhyw leoliad yn hollol ddiogel, dengys ein hymchwil fod ffactorau i'w hystyried yn cynnwys:

Y gymdogaeth:

Er fod trafodaeth faith sy'n parhau am achos ac effaith, mae cysylltiad rhwng ymddygiad troseddol ac amddifadedd cymdeithasol. Er nad yn ddangosydd uniongyrchol, mae mynychder amddifadedd cymdeithasol yn cysylltu gyda thueddiadau uwch na'r cyfartalog i adroddiadau am drais.

Amgylchedd stryd:

Er fod trafodaeth faith sy'n parhau am achos ac effaith, mae cysylltiad rhwng ymddygiad troseddol ac amddifadedd cymdeithasol. Er nad yn ddangosydd uniongyrchol, mae mynychder amddifadedd cymdeithasol yn cysylltu gyda thueddiadau uwch na'r cyfartalog i adroddiadau am drais.

Troseddu yn yr ardal:

Mae cysylltiad rhwng ymddygiad ymosodol, camdriniol a threisgar â ffigurau troseddu uwch. Mae ystadegau ar gyfer ardaloedd a chymdogaethau ar gael ar wefannau awdurdodau heddlu unigol.

2.2 Gweithle

Mae lleoliad fferyllfa yn sefydlog ac anaml y gall y fferyllfa ddylanwadu ar risg lleoliad. Fodd bynnag, mae amgylchedd y gweithle ei hun yn risg cynhenid y gellir ei reoli. Unwaith yr archwiliwyd ar elfennau'r gweithle, gellir adnabod strategaethau i reoli'r risg er y gall y lleoliad fod yn risg uchel.

Hanes

Mae digwyddiadau blaenorol o gamdriniaeth, bygythiadau a thrais yn ddangosyddion sylfaenol o risg uchel.

Staffio

Mae niferoedd staff yn cael dylanwad pwysig ar ddiogelwch personol. Mae un person yn gweithio ar ben ei hun bob amser yn cynrychioli risg annerbyniol.

Hyfforddiant

Mae staff wedi'u hyfforddi'n gywir, yn nhermau sgiliau swydd, diogelwch personol a gweithdrefnau a gweithdrefnau yn gostwng y risg.

Gwasanaethau

Mae risg yn gysylltiedig â'r cynnyrch a'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae fferyllfa drefnus ac sy'n rhedeg yn ei gwneud yn fwy annhebygol y bydd cleifion rhwystredig yn ymddwyn mewn modd ymosodol.

Cleientiaid

Mae cysylltiad rhwng risg â phroffil cwsmeriaid gwirioneddol ac mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn dylanwadu llawer ar hyn. Ar gyfer fferyllfa gymunedol, mae'r proffil cwsmer cyffredinol yn gynnyrch y lleoliad. Mae hyn yn llai felly ar gyfer gosodiad fferyllfa ysbyty lle bydd cymysgedd ehangach o gleifion.

Dyluniad ac ymddangosiad

Mae safle wedi'i gynllunio'n dda, yn neilltuol lle rhoddwyd ystyriaeth i ddiogelwch gweithwyr a'i gynnal a chadw yn dda'n gostwng risg.

2.3 Ymddygiad personol

Gall y ffordd y caiff digwyddiad ei drin un ai ostwng neu waethygu gwrthdaro rhag cynyddu i drais.

Ymddygiad

Mae ymddygiad bob dydd yn bwysig ym mhob agwedd o ymarweddiad proffesiynol fferylllydd ac agwedd at fywyd.

Mae'n rhaid i fferyllwyr sicrhau eu bod yn ymddwyn gyda integriti a chywirdeb a chydymffurfio â safonau a dderbynnir ar gyfer ymddygiad personol a phroffesiynol.

Ymwybyddiaeth ddiwylliannol

Mae barn ar ofod personol, iaith corff, ystumiau a rhyw person yn gwahaniaethu rhwng diwylliannau. Gall gwerthfawrogi'r gwahaniaethau hyn helpu i ostwng risg.

Ymddangosiad

Mae gwisg yn dylanwadu ar ganfyddiad. Efallai nad yw gwisg briodol yn dileu risg ond gall gwisg amhriodol effeithio ar ymateb claf/cwsmer i fferyllwyr, er enghraifft p'un ai a gânt eu gweld fel ffigur awdurdod neu swyddogol.

2.4 Rheolaeth

Mae agwedd y perchnogion, cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr yn cael effaith sylweddol ar y diogelwch personol o'r holl bersonel.

Polisiau

Dylai delio gyda risg ymddygiad treisgar a chamdriniaeth fod yn rhan bwysig o bolisiau a gweithdrefnau fferyllfa. Mae hyn yn neilltuol o bwysig lle cymerir arferion yn ganiataol ac maent yn aml heb fod ar bapur. Mae'n ofyniad mewn rheoliadau lechyd a Diogelwch yn y Gwaith y cynhelir asesiadau, y gweithredir arnynt ac y cânt eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd polisiau a gweithdrefnau priodol yn gostwng risg yn sylweddol

Ymgynghoriad, adborth ac adolygu

Mae asesiad risg yn cynnwys adolygiad o gamau a gymerwyd. Mae gofyn am awgrymiadau gan aelodau o staff nid yn unig yn werth gwyh ond hefyd yn ac adolygu cynrychioli arfer gorau o safbwynt lechyd a Diogelwch

Cefnogaeth ar ôl digwyddiad

Mae gan aelodau staff hawl disgwyl i gyflogwyr ddarparu cymorth rhesymol ydynt yn dioddef ymddygiad dreisgar neu gamdriniaeth.

3 ASESU RISG A RHEOLI RISG

3.1 Asesiad Risg ac Offeryn Rheoli Risg PDA

Mae ffurflen y gellir ei defnyddio i wneud yr ymarferion hyn yn Atodiad 2 a chafodd ei chynllunio i ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenoin. Cafodd ei rhannu'n ddwy adran.

Mae'r adran gyntaf (Asesu Risg) yn galluogi'r defnyddiwr i ddiffinio'r risgiau i ddiogelwch personol sy'n gynhenid mewn fferyllfa. Mae'r rhain yn bennaf yn ymwneud â lleoliad ond maent hefyd yn cynnwys ystyriaeth o'r gwasanaethau a gynigir yn y safle. Ar y sail yma gall fferylllydd raddio fferyllfa neilltuol fel un risg ISEL, CANOLIG neu UCHEL. Asesiad rhesymol y fferylllydd sy'n bwysig bob amser.

Mae'r ail adran (Rheoli Risg) yn edrych ar y mesurau sydd eisoes yn eu lle i atal risg ymddygiad ymosodol, treisgar a chamdriniaeth. Mae wedyn yn arosod yr ymarferiad asesu risg gyda'r ymarferiad rheoli risg. Y canlyniad yw ei fod yn rhoi syniad da am p'un ai yw cydbwysedd risg yn erbyn rheoli risg yn Ddigonol, Anfoddhaol neu Ddiffygiol lawn.

Fel canlyniad, daw'n bosibl canfod os oes angen gosod mwy o fesurau rheoli risg. Os felly, wedyn gellir ystyried dewislen o fesurau ychwanegol a gall y defnyddiwr ddatblygu cynllun ar gyfer lliniaru risg yn y dyfodol. Rhoddir syniadau ar gyfer mesurau ychwanegol yn adran 4 ond nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.

Mae cyfarwyddiadau ar sut i lenwi'r ffurflen asesu risg yn y ffurflen ei hun..

Dylid cynnal yr ymarferiad bob hyn a hyn. Ailasesu arferol ar risg trais yn y gweithle yw congllfaen deddfwriaeth lechyd a Diogelwch. Mae'r PDA yn argymhell y dylid ei wneud o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n gynharach os yw amgylchiadau lleol yn newid (darpariaeth gwasanaeth newydd, risg uwch o'r safle) os oes ymosodiad treisgar yn digwydd.

3.2 Gwerthuso Deilliannau Asesu Risg yn erbyn Rheoli Risg

Ar gyfer pob adran a'r asesiad yn gyffredinol, caiff y deiliant ei ddsbarthu fel digonol, anfoddhaol neu diffygiol iawn.

Deiliant - Digonol

Dengys gradd Digonol fod un ai risg cynheniad ansylweddol neu y cafodd y risg presennol ei fychanu drwy fesurau addas ar gyfer atal ac osgoi. Gweithredir y radd i amgylcheddau, mae'n rhaid i'r mesurau rheoli risg presennol gyflawni o leiaf 70% o'r risg a ddarganfyddir i sicrhau gradd "digonol".

Deiliant - Anfoddhaol

Lle dynodwyd y cafodd 52% a 70% o'r risgiau eu rheoli'n addas, rhoddir gradd Anfoddhaol. Mae angen peth gweithredu pellach i ostwng y risgiau i lefelau derbyniol.

Deilliant - Diffygiol lawn

Lle asisir fod y mesurau a gymerwyd yn diwallu llai na 51% o'r risg posibl, mae angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r diffygion. Gallai parhau i weithio mewn sefyllfa lle mae mesurau gofalu annigonol fod yn torri deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a rheoliadau fferyllfeydd ond hefyd yn golygu fod fferyllwyr yn gweithio mewn amgylcheddau sy'n peryglu eu diogelwch personol eu hunain a'u cydweithwyr.

Mae gradd Digonol yn awgrymu nad oes angen gwneud newidiadau sylweddol.

Mae graddau Anfoddhaol a Diffygiol lawn yn dangos angen am fesurau ychwanegol i reoli risg.

3.3 Beth i'w wneud os oes deilliant Anfoddhaol neu Ddiffygiol lawn.

Bydd yr offeryn Asesu Rheolaeth Risg yn canfod os oes angen gosod mwy o fesurau rheoli risg. Os felly, gellir ystyried dewislen o fesurau ychwanegol a gall y defnyddiwr ddatblygu cynllun ar gyfer lliniaru risg yn y dyfodol.

Os ydych yn gyflogwr, byddai'n ddoeth ar y cam hwn i ymgynghori gyda'ch staff a'u cynnwys wrth ddefnyddio unrhyw fesurau ychwanegol.

Os ydych yn weithiwr cyflogedig, yna gallwch ystyried trefnu ymgynghoriad gyda chydweithwyr i drafod pa fesurau y gellid eu defnyddio i wneud hynny er mwyn gostwng risg trais. Rhowch gopi o'ch asesiad risg i'ch cyflogwr a thrafod eich canfyddiadau a phryderon gydag ef/hi. Mewn ymgynghoriad gyda'ch cyflogwr, dylech benderfynu ar gynllun gweithredu penodol i gael ei ddilyn. Gall y PDA gynorthwyo aelodau gyda sgysiau o'r fath gyda chyflogwyr.

3.4 Datganiad ar y risgiau o drais

P'un a yw'r asesiad yn awgrymu fod mesurau presennol yn foddhaol ai peidio, mae'n elfen naturiol o athroniaeth lechyd a Diogelwch fod yn rhaid i gyflogwr baratoi datganiad wedi'i ddiffinio'n glir ar y risgiau o drais yn y fferyllfa honno a bod yn rhaid i ddatganiad o'r fath fod ar gael i bob aelod o staff. Dylai hyn amlinellu dyddiad a chanfyddiadau'r asesiad diweddaraf a rhestr o'r camau (os oes angen rhai) y dylid eu cymryd ynghyd ag amserlen ar gyfer gweithredu. Rhoddir datganiad sampl yn Atodiad 3 er gwybodaeth.

4 RHEOLI'R RISG

4.1 Pwy sy'n cymryd yr awennau?

Mae deddfwriaeth lechyd a Diogelwch yn gosod baich ar gyflogwyr a gweithwyr cyflogedig i sicrhau bod y gweithle'n ddiogel ac y caiff risgiau eu gostwng. Derbynnir mai'r norm yw mai'r cyflogwr sy'n cymryd yr awennau.

Fodd bynnag mae'r risg mwyaf i'r unigolion sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd ac felly gall fod angen i fferyllwyr a fferyllwyr locwm a gaiff eu cyflogi i symbylu gwelliant - mae eu hunan-ddiddordeb yn gydnaws gydag anghenion y rhai sy'n eu cyflogi. Lle caiff fferyllfa ei gweithredu gan ei pherchennog, gall fod llai o ymwybyddiaeth o risg bersonol a gall fod yn rhaid i fferyllwyr locwm wthio am newidiadau.

4.2 Gosod Mesurau Priodol - Camau ar gyfer Perchnogion a Chyflogwyr

Mae tri prif grŵp:

- Dyluniad y gwaith (gweithdrefnau)
- Dyluniad y gweithle (mesurau amgylcheddol)
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

Mae'n debyg y bydd angen cyfuniad o gamau gan bob un o'r grwpiau i fynd i'r afael â diffygion mewn rheoli risg.:

Mae hefyd ddau gategori arbennig pellach a all fod yn addas:

- Mesurau a osodir ar gyfer staff sy'n gweithio ar ben eu hunain (e.e. ymweliadau cartref)
- Datblygu partneriaethau gydag eraill

4.2.1 Dyluniad y Gwaith (gweithdrefnau)

Sefydlu gweithdrefnau clir i ostwng risg:

- Llunio rota ar gyfer swyddi risg uchel
- Peidio gadael i neb weithio ar ben ei hun mewn sefyllfaoedd risg uchel (gall hyn gynnwys bancio arian, cynnal trafodaethau mewn ardaloedd ymgynghori gor-gaeedig neu rhy ar wahân)
- Rhoi ystyriaeth i risg personol yn ogystal â materion cost wrth benderfynu ar lefelau staff
- Sefydlu gweithdrefnau i alluogi'r staff i stopio'r hyn maent yn ei wneud mewn amgylchiadau peryglus a rhoi gwybodaeth ar sut i ymddwyn a gyda phwy i gysylltu.
- Cynnwys gwybodaeth ar ddiogelwch personol mewn deunyddiau cynefino staff a llawlyfrau ac yn y blaen gan wneud yn siŵr fod staff yn ffurfiol yn cydnabod eu dealltwriaeth.
- Rhoi arwyddion clir i ddangos y gwasanaethau sydd ar gael (ac efallai'r rhai nad ydynt ar gael) a bod

| amddifyn eich new da |

| cynrychioli eich diddordebau |

yn eglur y caiff mynediad i'r gwasanaethau hynny a hyd yn oed y fferyllfa ei hunan ei ddileu lle mae ymddygiad claf neu gwsmer yn annerbyniol.

- Mewn lleoliadau a gweithleoedd risg uchel, penodi a rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i gynrycholydd staff a all leisio pryderon staff ac awgrymu gwelliannau i'r gweithle'n ymwneud ag ofn trais gweithle.
- Datblygu cynllun dibriffio i ddysgu gwersi o unrhyw ddigwyddiad treisgar neu ddigwyddiad a allai fod wedi bod yn dreisgar.
- Datblygu cynllun cefnogi staff i leihau effaith seicolegol digwyddiad treisgar.

4.2.2 Dyluniad y Gweithle (mesurau amgylcheddol)

Mae cynllun y gweithle a'i integriti ffisegol yn elfennau hanfodol mewn gostwng risg. Ystyriwch y mesurau dilynol:

- Gwella goleuadau a'r gallu i weld yn gyffredinol.
- Dileu rhannau o'r fferyllfa a allai roi cyfle i ymosodwyr posibl guddio.
- Sicrhau fod mynediad rhwydd a gaiff ei ddeall yn dda i leoliad diogel pe byddai argyfwng wrth y cownter, yn yr ardal ddosbarthu meddyginiaeth neu ardal ymgynghori
- Ystyried nid yn unig yr arian ei hun ond y gall staff fod yn fregus wrth fynd at dil talu.
- Sicrhau mai'r swm isaf posibl o arian a gedwir yn y til bob amser - dylid symud arian o'r til heb dynnu sylw at hynny a'u cadw mewn ardal ddiogel lle bynnag sy'n bosibl.
- Rhoi nwyddau gwerth uchel allan o gyrraedd rhwydd cwsmeriaid.
- Rhoi arwyddion yn dweud y gwethredir polisi dim goddefgarwch ac y caiff troseddwy eu herlyn.
- Sicrhau fod goleuadau da y tu allan i'r adeilad a'i bod yn daclus.
- Gosod neu symud drychau diogelwch.
- Gosod sgriniau diogelwch lle mae staff mewn mwyaf o risg.
- Gosod systemau diogelwch CCTV a sgriniau monitro yn wynebu cwsmeriaid.
- Rhoi larymau ymosodiad personol i staff risg uchel (yn arbennig os ydynt yn gweithio i ffwrdd o'r safle (bancio, symud sbwriel, ymweliadau cartref ac ati).
- Gosod larymau panic yn gysylltiedig â chanolfan reoli y cwmni larwm.
- Cyflogi staff diogelwch mewn lleoliadau risg uchel.
- Adolygu'r oriau agor.
- Diwygio'r gwasanaethau sydd ar gael a'r adegau pan maent ar gael.

4.2.3 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

Mae'n rhaid gweithredu rhaglen hyfforddiant a gynlluniwyd i gefnogi diogelwch personol ac atal trais. Mae'n rhaid i weithwyr cyflogedig ddeall y gweithdrefnau a'r polisiau sy'n sylfaen i'r hyfforddiant.

Dylai'r hyfforddiant gynnwys

- Datganiadau clir o bolisi ar drais a diogelwch personol
- Dealltwriaeth o achosion trais
- Adnabod a delio gydag ymddygiad cam-drin, ymosodol, gwrthgymdeithasol, cas ac afresymol
- Rheoli sefyllfaoedd a fedrai fod yn ymosodol, gan anelu i'w lliniaru drwy sgiliau gwranddo a pharhau'n bwylllog.
- Gweithdrefnau yn dilyn ymosodiad treisgar (e.e. seinio rhybudd, dod o hyd i le diogel ac yn y blaen fel amlinellir dan Ddyluniad y Gwaith).

4.2.4 Pobl sy'n gweithio ar ben eu hunain

Mae sefyllfaoedd niferus yn bodoli mewn fferyllfeydd lle mae staff un ai'n gweithio tu allan i safle'r fferyllfa (ymweliadau cartref ac yn y blaen, mewn ystafelloedd ffitio neu ardaloedd ymgynghori) neu ar ben eu hunain yn y fferyllfa heb unrhyw staff arall ar gael. Yn achlysurol, gall fod sefyllfaoedd risg uchel megis ymweliad cartref i ardal lle mae llawer o droseddau ar oriau anghymdeithasol neu ymgynghoriad gyda rhywun caeth i gyffuriau neu rywun gyda chyflwr iechyd meddwl a all ddylanwadu ar eu hymddygiad. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylid edrych ar fesurau ychwanegol i sicrhau y gall yr aelod o staff seinio'r rhybudd pan fo angen.

Dylid asesu gwahanol ddulliau cyfathrebu fel rhan o strategaeth ataliaeth. Gall hyn gynnwys:

- Systemau larwm botwm panic mewn lleoedd lle gall staff fod ar ben eu hunain gyda chleifion
- Ffônau symudol ar gyfer staff sy'n cymryd mewn unrhyw waith yn y gymuned
- Darparu cludiant i'r staff hynny sy'n gweithio ar ben eu hunain
- Negeseuon helbul cudd lle gall aelod o staff sy'n rhagweld digwyddiad dynnu sylw cydweithiwr mewn modd tawel
- Gweithdrefnau sy'n hysbysu aelodau eraill o staff pan fydd cydweithiwr yn debygol o fod allan, lle maent yn debyg o fod a phryd y disgwylir iddynt ddychwelyd. Dylai hyn gynnwys y broses y dylid eu dilyn pe na fyddai cydweithiwr yn dychwelyd.

Os na fedrir osgoi ymweliad cartref:

- Sicrhau y cynhelir y cyfarfod dechreuol gyda'r claf yn y fferyllfa neu mewn lleoliad diogel arall.
- Rhoi rhestr wirio fel y gellir cynnal asesiad risg o'r ardal, y claf ac unrhyw ffactorau eraill perthnasol cyn yr ymweliad, Dylai gynnwys nodyn i atgoffa am y cymhorthion diogelwch i'w cymryd ar yr ymweliad, beth i'w wneud os bydd digwyddiad, ystyried i aelod o staff fynd gyda nhw ac atgoffa am y weithdrefn adrodd-i'r-gweithle.

4.2.5 Partneriaethau

Os yw fferyllfa wedi dioddef neu'n amau y gall fod problem gyda thrais, mae siopau eraill cyfagos yn debygol o gael problemau tebyg. Mewn ysbytai, gall problem ar gyfer fferyllfa fod yn debyg i'r rhai mewn adrannau eraill sy'n delio gyda chleifion allanol ac ymwelwyr.

Bydd meithrin perthynas dda gyda'r gymuned megis cymdeithasau masnachwyr lleol, darparwyr gofal iechyd lleol (meddygfeydd ac yn y blaen) a gwasanaeth atal troseddu yr heddlu yn sicrhau manteision cadarnhaol i'r fferyllfa am debygolrwydd trais. Gall y GIG, awdurdod lleol a/neu'r heddlu fod â'i bolisi gweithredol ei hunain yn yr ardal ac efallai y gallent roi mwy o gefnogaeth neu arweiniad:

Mynychu neu efallai drefnu pwyllgor diogelwch busnes lleol, trefnu cyfarfodydd a rhoi diogelwch a thrais fel eitem reolaidd ar yr agenda.

- Cyfuno gyda manwerthwyr eraill i rannu rhai o gostau diogelwch megis llogi personél diogelwch.
- Cytuno ar bolisi dim goddefgarwch gyda'r heddlu lleol.
- Anelu am drefniant patrol cyson gyda'r orsaf heddlu leol.
- Gweithio gydag ysgolion lleol i amlygu rôl bwysig y fferyllfa leol.
- Gweithio gydag adrannau eraill yn yr ysbyty i hybu polisi cyffredinol i'r ysbyty ar atal trais.
- Cysylltu â'ch rhwydweithiau lleol megis y Bwrdd Iechyd, neu'r Grŵp Comisiynu Clinigol, Partneriaethau Gofal Integredig neu Bwyllgorau Fferyllfeydd Lleol i ganfod os gwyddant am unrhyw gynlluniau cefnogaeth gwerth chweil yn yr ardal y gallent eu hargymhell yn benodol.

4.3 Camau Priodol ar gyfer y Fferyllydd Cyflogedig neu Hunan-gyflodedig

Mae'n rhwyddach newid ymddygiad personol pan gewch eich bygwth gan ymddygiad rhywun arall os oes dealltwriaeth o ymosodiad a thrais.

Er bod achosion sylfaenol ymosodiad a thrais yn niferus ac amrywiaeth, maent fel arfer oherwydd::

- ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol
- barn anghywir am ymddygiad priodol.
- gofid personol heb fod yn gysylltiedig.
- cred fod person yn cael ei drin yn annheg.
- salwch.
- diffyg grym a rhwystredigaeth.
- ofn

| amddifyn eich new da |

| cynrychioli eich diddordebau |

Gyda'r wybodaeth honno, dylid bod yn ymwybodol o'r arwyddion allanol sydd fel arfer cyn camdriniaeth, ymddygiad ymosodol a threisgar:

- codi llais
- symudiadau gormodol megis cerdded o amgylch
- dyrnau wedi cau, heb eu codi o reidrwydd
- procio a phwyntio bysedd
- syllu
- mwydro
- torri normau gofod personol

Yn y fferyllfa, rhai o'r sbardunau a allai danio ymddygiad annerbyniol:

- Cael eu hanwybyddu;
- Rhywun yn neidio ciw, yn arbennig pan ddsberthir presgripsiynau.
- Heb gael cyngor addas nad yw eitem presgripsiwn ar gael.
- Personél dibrofiad neu heb eu hyfforddi.
- Staff ddim yn dangos cydymdeimlad.
- Ymatebion sy'n bychanu.

Mae nodweddion personol sydd o fudd wrth drin ymddygiad ymosodol a chamdriniaeth. Gall ymwybyddiaeth o beth ydynt fod yn werthfawr.

- Hunanhyder - gall swildod a bod yn ddiffaith ddenu ymateb cryf.
- Bod yn bwyllog - gall ymddangos i fod dan bwysau gael ei gymryd fel arwydd o ansicrwydd a gwendid.
- Pendantrwydd - yn hollol wahanol i ymddygiad ymosodol, mae'n dangos hyder a rheolaeth nad yw'n bygwth.

Datblygu technegau i leihau risg:

Defnyddio iaith corff hyderus a heb fod yn ymosodol (mae hyd at 90% o gyfathrebu heb fod yn eiriol). Mae rhoi dwylo ar y cluniau, plygu breichiau a phwyntio bysedd yn ystumiau gwrthwynebus y mae'n rhaid eu hosgoi.

- Cadw cysylltiad llygad, os nad yn gyson yna'n aml ac yn llawn.
- Parchu normau gofod personol.
- Bod yn barod i esbonio pwy ydych a'r ffiniau y gallwch drafod a chyfathrebu o'u mewn.

| amddifyn eich new da |

| cynrychioli eich diddordebau |

- Ogoi iaith ac ystumiau nawddoglyd, bychanol neu sarhaus.
- Defnyddio pendantrwydd i wynebu ymddygiad llafar annerbyniol.

5 SICRHAU NEWID

Yn ogystal â deall trais ac ymddygiad ymosodol a sut i ymddwyn i leihau'r effeithiau, gall cael asesiad risg yn eich gweithle ddangos diffygion mai dim ond gweithredydd y busnes all ddelio gyda nhw. Bydd y broses ar gyfer ymgysylltu'r gweithredydd rhwng fferyllwydd a gyflogir a fferyllwydd hunangyflogedig.

5.1 Fferyllwyr a gyflogir

Y dull cyntaf i weithwyr a gyflogir fel arfer yw hysbysu'r rheolwr llinell am bryderon. Yn y lle cyntaf mae fel arfer yn fwy addas i wneud hynny yn llafar, ac os felly dylid cadw nodyn o ddyddiad y drafodaeth a'r sgwrs. Yn ogystal ag unrhyw nodyn personol a gedwir gan weithiwr cyflogedig, dylid gwneud cofnod byr mewn unrhyw ddyddiadur swyddogol neu lyfr memorandwm.

Os bydd diffyg difrifol yn y fferyllfa, neu lle cafodd ceisiadau blaenorol eu hanwybyddu, gall gweithiwr cyflogedig benderfynu trin y materion yn ysgrifenedig. Mewn achosion o'r fath dylid cadw copi wedi'i ddyddio a'i lofnodi fel cofnod gan y gellir bod eisiau dibynnu arno wedyn os oes angen cymryd unrhyw gamau disgyblaeth cyfreithiol neu broffesiynol. Mae hyn yr un mor bwysig lle defnyddir e-bost.

Dylid cydymffurfio â gweithdrefn safonol y cyflogwr lle bynnag sy'n bosibl ac yn briodol, yn neilltuo yr adrannau ar y protocolau i gael eu defnyddio i godi mater tu hwnt i'r rheolwr llinell a mynd yn syth i lefel uwch. A siarad yn gyffredinol, y fferyllwydd goruchwylio sydd yn bennaf gyfrifol am bob agwedd o weithrediad fferyllfa gymunedol mewn safle cofrestredig, er y gall swyddogion eraill hefyd fod yn gysylltiedig (e.e. rheolwyr ardal ac adnoddau personél) ac yn y blaen. Mewn ysbytai, mae strwythurau rheoli llinell yn ymestyn i gyfarwyddwr gwasanaethau fferyllfa, ac ar ôl hynny mae'n rhaid cynnwys rheolwyr cyffredinol.

5.2 Fferyllwyr hunangyflogedig

Dylai fferyllwyr hunangyflogedig fynegi eu pryderon wrth berchennog y busnes neu'r fferyllwydd goruchwylio. Bydd amgylchiadau'n penderfynu p'un ai i wneud hynny'n llafar neu mewn ysgrifen. Unwaith eto, dylid cadw nodyn o ddyddiad y drafodaeth. Dylid dyddio, lofnodi a chadw unrhyw ohebiaeth (llythyrau a negeseuon e-bost).

5.3 Cyfathrebu ysgrifenedig

Mae'n rhaid i gamau gweithredu sy'n cynnwys gwella mesurau diogelwch neu gynnig newidiadau i ffordd y caiff busnes ei redeg gynnwys y perchennog neu weithredwr. Gall llythyr ysgrifenedig sy'n nodi diffygion fod â rôl bwysig iawn mewn unrhyw gamau gweithredu lechyd a Diogelwch y gellir bod angen eu hystyried os yw cyflogwr yn methu cymryd pryderon o ddiogelwch o ddifrif. Fel canllaw, amgaeir sampl o lythyr y gall gweithwyr cyflogedig neu fferyllwyr locwm ei amgáu yn Atodiad 1. Mae llythyr o'r math hwn yn hysbysiad ffurfiol i'r cyflogwr.

6 BETH I'W WNEUD MEWN YMOSODIAD POSIBL

Dull gweithredu defnyddiol yw sicrhau fod yr ymosodwr yn gwybod fod cefnogaeth ar y safle. Mae hefyd yn bwysig cadw'n bwyllog. Os oes angen, ceisiwch gael sylw staff eraill neu cwsmeriaid yn anuniongyrchol. Peidiwch byth droi eich cefn ar ymosodwr posibl ond camu i ffwrdd wysg eich cefn i fan diogel.

Rhowch flaenoriaeth i'ch diogelwch eich hun, cydweithwyr a chleifion/cwsmeriaid eraill. Nid oes unrhyw feddyginiaeth a dim swm o arian yn werth mwy na'ch diogelwch.

Pa bynnag mor dda yw'ch paratodau neu eich ymateb i ymosodiad posibl, gall ymosodiad treisgar ddal i ddigwydd. Nid yw byth yn rhwydd gwybod sut y byddwch yn ymateb pan mae digwyddiad yn mynd rhagddo gan y bydd pob amgylchiad yn unigryw.

Fodd bynnag, a rhoi amgylchiadau eithriadol ar y naill ochr. y canllawiau gan yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref yw nad yw ymateb treisgar i ymddygiad ddifrifol byth yn dderbyniol os nad oes angen hynny ar gyfer dibenion hunan-amddiffyn.

7 MATERION AR ÔL DIGWYDDIAD

Pa bynnag fesurau gofal a gymerir a pha bynnag mor dda'r hyfforddiant a'r paratodau, ni ellir byth ddileu ymddygiad cam-drin yn llwyr. Mewn digwyddiad treisgar, rhaid peidio bychanu pwysigrwydd gweithredu addas ar ôl y digwyddiad.

7.1 Gwneud Adroddiad

Fan leiaf oll, dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r digwyddiad mewn dyddiadur personol, dyddiadur fferyllfa neu'r llyfr cofnod priodol sydd ar gael. Dylai hyn gynnwys enwau a ffeithiau eraill sy'n dynodi'r tramgwyddwr, unrhyw staff eraill oedd yn gysylltiedig ac adroddiad o'r hyn ddigwyddodd tra bod y cof yn dal yn ffres.

Yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw digwyddiadau (au) a pha mor aml maent yn digwydd, dylech benderfynu p'un ai i fynd â'r adroddiad ymhellach i berchennog neu weithredwr y fferyllfa .

Dylid bob amser gynnwys yr heddlu os bu trais - ac mae'n ddoeth eu hysbysu os gwneir bygythiadau yr ystyriwch eu bod yn rhai go iawn.

Un o nodau'r PDA yw lobio am welliannau i fywyd proffesiynol aelodau ac rydym eisiau clywed am ddigwyddiadau fel y gallwn ddynodi amgylchiadau a lleoliadau o risg uwch. Yn yr un modd, lle mae tystiolaeth yn dynodi arfer da, bydd y PDA yn lledaenu'r wybodaeth i annog eraill i gyrraedd yr un safonau.

Caiff aelodau eu hannog i roi adroddiad cyfrinachol am ddigwyddiadau, p'un ai ydynt yn gofyn am help gan y PDA ai peidio.

7.2 Cefnogi

Gall dioddefwyr troseddau treisgar neu gamdriniaeth fod angen cefnogaeth ac mae cefnogaeth ar unwaith gan gydweithwyr yn aml yn werthfawr tu hwnt. Mae diwylliant lle mae dioddefwyr yn ceisio cefnogaeth ac eraill yn ei gynnig iddynt yn rhwydd o fudd i unigolion a'r sefydliad. Dylid disgwyl cefnogaeth tymor hirach gan y perchennog neu weithredydd fferyllfa a gellir hefyd ddibynnu arno gan y PDA.

Gall yr elusen Cymorth i Ddioddefwyr/Victim Support Northern Ireland fod â rôl bwysig yn dilyn trosedd. Mae ganddynt rwydwaith helaeth o ganghennau lleol ar draws y Deyrnas Unedig a chaiff troseddau'n cynnwys trais eu hatgyfeirio atynt gan yr heddlu. Dengys ystadegau mai dim ond hanner troseddau y dylid eu cefnogi a gaiff eu hadrodd i'r heddlu ac mae Cymorth Dioddefwyr yn darparu ei wasanaethau'n uniongyrchol pan nad yw'r heddlu'n gysylltiedig. Mae manylion sut i gysylltu â'r elusen yn adran manylion cyswllt ar ddiwedd y pecyn adnodd yma.

7.3 Erlyniad a lawndal

Mae'r rhan fwyaf o fanwerthwyr yn gweithredu polisi dim goddefgarwch tuag at bobl sy'n dwyn o siopau a chaiff arwyddion yn aml eu dangos mewn fferyllfeydd yn dweud hynny.

Mae'n rhaid cael yr un ymagwedd at bolisi o ddim goddefgarwch tuag at drais.

Dylai anallu corfforol neu seicolegol yn dilyn bygythiadau neu drais olygu erlyniad a gall hefyd arwain at i'r dioddefwr hawlio iawndal. Gellir hawlio iawndal yn ymestyn yr ymosodwr, ond er ei bod yn bosibl ar bapur i ddioddefwr erlyn yr ymosodwr, anaml mae hynny'n ymarferol. Fodd bynnag, mae holl wledydd y Deyrnas Unedig yn darparu cynlluniau iawndal anafiadau ac mae manylion sut i gysylltu â'r sefydliadau ar ddiwedd y pecyn adnoddau yma.

Dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, gall y perchennog neu gweithredwr fod ag atebolrwydd sifil a throreddol os na chafodd risgiau y medrid eu rhagweld eu hasesu neu os na chymerwyd unrhyw gamau i leihau risgiau a ddynodwyd.

Mewn achos o anaf gwaith, lle gellir dangos y cafodd pryderon blaenorol gweithiwr cyflogedig eu hanwybyddu, mae atebolrwydd y cyflogwr yn codi'n sylweddol. Mewn achos tirnod (Simmons v British Steel PLC Tŷ'r Arglwyddi 29 Ebrill 2004), roedd cyflogwr wedi methu gweithredu ar bryderon gweithiwr cyflogedig am faterion diogelwch. Yn dilyn anaf corfforol dilynol a thrawma seicolegol, dyfarnwyd bron £500,000 mewn iawndal i'r gweithiwr cyflogedig. Mae gan yr achos hwn oblygiadau amlwg ar gyfer gweithredwyr fferyllfeydd.

Mae aelodaeth o'r PDA yn rhoi hawl i weithwyr cyflogedig a fferyllwyr locwm i gael cynrychiolaeth mewn gweithredu yn erbyn cyflogwr neu fel ymgysylltwr mewn amgylchiadau lle cânt eu hanwybyddu ac y gellir dangos esgeulustod.

8. GWYBODAETH BELLACH

Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh

www.suzylamplugh.org

Elusen sy'n anelu i leihau'r niwed a achosir i unigolion ac i gymdeithas drwy ymddygiad ymosodol yn ei holl ddulliau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu ac yn cyflenwi adnoddau a deunyddiau ar gyfer unigolion a sefydliadau.

Cymdeithas Amddiffyn Fferyllwyr

www.the-pda.org

Y Gymdeithas Amddiffyn ar gyfer fferyllwyr unigol ac awdur y pecyn adnoddau hwn. Mae gan aelodau o'r PDA hawl awtomatig i gymorth cyfreithiol i geisio iawndal pe byddent yn cael eu hanafu yn yr ysgol.

Cymorth i Ddiodefwr

www.victimsupport.org.uk

www.victimsupportni.co.uk

ATAL trais yn y fferyllfa



- A1. Sampl o lythyr i'r cyflogwr
- A2. Offer Asesu Risk
- A3. Tabled Sampl i'r Cyflogwr
- A4. Datganiad Tabled Sampl

Mai 2017

www.the-pda.org

A1. Sampl o lythyr i'r cyflogwr

Annwyl [enw'r Rheolwr neu Fferyllydd Goruchwyliol]

Er ei bod yn llai prysur ar amser 6pm, dyna pryd mae llawer o'r cleifion methadon yn galw a chredaf y dylai fod mwy nag un person ar ddyletswydd heblaw'r fferyllydd.

Nid yw'r system CCTV yn cynnwys pob un o ardaloedd bregus y stôr a chaiff y tapiâu eu cylchdroi rywsut rywsut.

Yng ngolwg bygythiadau diweddar a chamdriniaeth y mae nifer o aelodau'r staff wedi ei ddiodef, mae'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael ymhell o fod yn ddigonol. Mae hyfforddiant annigonol yn arwain at ymddygiad direswm a rhywfaint o banic pan fo gwrthdaro gyda chlaf.

Rwy'n tynnu eich sylw at y materion hyn oherwydd fy mod yn bryderus am ddiogelwch pawb sy'n gweithio yma ond hefyd oherwydd y deallaf fod gennych atebolrwydd dan iechyd a deddfwriaeth i fod yn rhagweithiol wrth leihau risg.

Gobeithiaf y byddwch mewn sefyllfa i ymateb yn fuan.

Yn gywir.

A2. CYMDEITHAS AMDDIFFYN FFERYLLWYR

Offeryn Asesu Risg a Rheoli Risg

Rhan 1: ASESAD RISG

Defnyddir y rhan hon o'r ffurflen i ganfod os yw'r fferyllfa yn gynhenid yn weithrediad risg ISEL, CANOLIG neu UCHEL.

Ar gyfer pob eitem a restrir, dilëwch y blwch rhif os nad yw'r eitem a ddisgrifir yn y golofn llaw chwith yn broblem yn eich fferyllfa, neu cylchwch y blwch os yw'r eitem yn broblem.

Dyddiad	
Safle	
Asesiad Dechreuol	
Ailasesiad Cyfnodol	
Yn dilyn digwyddiad	

Adran A

Cylchwch yr HOLL rifau lle credwch fod y datganiad yn WIR.

Gwnewch benderfyniad ar gyfer pob datganiad, peidiwch neidio dros unrhyw un ohonynt.

Datganiad	Sgor
Mae gan yr ardal cod post ffigurau uwch na'r cyfartalog ar gyfer trais a lladrata Defnyddiwch wybodaeth leol, gwefannau awdurdod lleol ac yn y blaen	4
A yw'r ardal yn un gymdeithasol amddifadus. Defnyddiwch wybodaeth leol	3
Mae'r awyrgylch yn y gymuned leol yn achosi tensiynau a throseddu. Defnyddiwch wybodaeth leol.	2
Mae llawer o siopau heb fod yn hanfodol (siopau diod, siopau benthyca, bwyd cyflym heb ei, frandio ac yn y blaen) yn yr ardal yn union o amgylch. Defnyddiwch wybodaeth leol	3
Mae'r strydoedd o amgylch yn dywyll ac yn flêr a'r dodrefn stryd mewn cyflwr gwael.	2
Mae nifer uwch na'r cyfartaledd o ddynion ifanc ymysg cleientiaid y fferyllfa.	1
Mae cleientiaid y fferyllfa yn fwy tebygol o fod dan bwysau ariannol er mwyn ymdopi yn eu bywydau bob dydd, megis dibynnu ar fudd-daliadau a banciau bwyd.	1
Mae gwasanaeth cyfnewid nodwyddau a/neu wasanaeth dosbarthu methadon ar gael.	2
Mae nifer fawr o bresgripsiynau'n cael eu dosbarthu, gyda chleifion yn aros am hir ac yn ciwio.	1
Caiff nwyddau gwerth uchel ac eitemau brand ffasiynol eu gwerthu	1
Cyfanswm y gwerthoedd a gylchwyd gennych yn yr adran yma	A:

Adran B

Cylchwch y rhif sydd agosaf i'ch profiad o'r fferyllfa.

Dewiswch UN yn unig

Datganiad	Sgor
Bu un neu fwy o ddigwyddiadau treisgar neu fygythiad trais yn y chwe mis diwethaf.	10
Roedd o leiaf un digwyddiad neu fygythiad rhwng chwe mis a blwyddyn yn ôl.	8
Roedd digwyddiad treisgar dros flwyddyn yn ôl.	5
Ni fu unrhyw ddigwyddiadau treisgar yn y fferyllfa.	0
Ysgrifennwch y sgôr a ddewiswyd ar gyfer yr adran yma yn y blwch	B:

Adran C

Cylchwch y rhif sydd agosaf i'ch profiad chi o'r fferyllfa.

Dewiswch UN yn unig

Datganiad	Sgor
Mae'r fferyllfa yn dosbarthu methadon ac yn y blaen yn rheolaidd i dros 20 cleient	10
Mae'r fferyllfa yn dosbarthu methadon ac yn y blaen yn rheolaidd i rhwng 10 a 20 cleient	8
Mae'r fferyllfa yn dosbarthu methadon ac yn y blaen yn rheolaidd i lai na 10 cleient	5
Nid oes unrhyw wasanaeth dosbarthu i bobl caeth i gyffuriau	0
Sgôr a ddewiswyd ar gyfer y sector	C:

Cyfanswm Sgôr Asesu Risg (cyfanswm blychau A, B a C.)	Sgor
---	------

Sgôr Asesu Risg dros 37 - Mae'r fferyllfa yn RISG UCHEL

Sgôr Asesu Risg dros 13 a llai na 37 - Mae'r fferyllfa yn RISG CANOLIG

Sgôr Asesu Risg dan 13 - Mae'r fferyllfa yn RISG ISEL

Yn seiliedig ar y sgôr asesu risg uchod, defnyddiwch y golofn briodol yn Rhan 2 i benderfynu i ba raddau y caiff y risgiau eu trin.

Rhan Dau: ASESAD RHEOLI RISG

Gellir defnyddio rhan o'r asesiad i asesu os yw'r mesurau RHEOLI RISG a ddefnyddir yn y fferyllfa ar hyn o bryd yn ddigonol, anfodhaol neu difrifol ddiffygiol.

Ar gyfer pob eitem a restrir, dilewch y blwch rhif os na chaiff y mesur RHEOLI RISG a ddisgrifir ei ddarparu yn y fferyllfa (neu cylchwch y blwch os darperir eitem). Ym mhob un o'r pedair adran gyntaf, adiwch y sgôr ar gyfer yr eitemau a ddarperir a chyfeirio at y nodiadau sgôr perthnasol.

Yn olaf, adiwch gyfanswm y pedwar sgwâr adrannol i roi'r cyfanswm sgôr.

Gan ddefnyddio'r un golofn ar gyfer y cyfan (yr un gyda phennawd y statws risg a benderfynwyd yn Rhan 1), cylchwch yr HOLL rifau lle credwch y caiff yr eitem a nodwyd ei trin ar lefel dderbyniol.

Gwnewch benderfyniad ar gyfer pob datganiad, peidiwch neidio dros unrhyw un ohonynt.

Ar ddiwedd adrannau A i D, adiwch y rhifau mewn cylch a chyfeirio at yr allwedd sgorio.

Yn olaf, rhowch gyfanswm sgôr y pedair adran yn y blwch yn adran E.

Adran A Staffio a Hyfforddiant

Statws Rheoli	Fferyllfa Risg Isel	Fferyllfa Risg Canolig	Fferyllfa Risg Uchel
Gweithdrefnau hyfforddiant a deunyddar faterion trais ar gael.	10	10	10
Staff wedi cael hyfforddiant digonol neu'n cael hyfforddiant ar reoli risg trais.	10	10	10
Gwahardd cloi gan un person ar ben ei hun	7	7	7
Gwahardd pobl rhag gweithio ar ben eu hunain	7	7	7
Cynyddu lefelau yn ystod cyfnodau risg uwch	7	7	7
Cydbwysedd da o brofiad ymysg gweithwyr	7	7	7
Adio sgôr am raddiad risg wedi'i bwysoli	+24	+12	+0

Cyfanswm Sgôr Personél a Hyfforddiant	Sgor
---------------------------------------	------

TCyfanswm o 24 neu lai - DIFFYGIOL DIFRIFOL mewn staffio a hyfforddiant.

Cyfanswm rhwng 25 a 33 - Staffio a hyfforddiant yn ANFODDHAOL

Cyfanswm o 35 neu drosodd - Staffio a hyfforddiant yn DDIGONOL adeg asesu

Adran B: Adnoddau

Statws Rheoli	Fferyllfa Risg Isel	Fferyllfa Risg Canolig	Fferyllfa Risg Uchel
Drychau mewnol ar gael ac mewn lleoliad digonol	10	10	10
System CCTV ar gael yn cynnwys recordiwr a monitor yn wynebu'r cwsmer	6	6	6
System CCTV yn gweithio ac yn rhoi gorchudd gweledol digonol	6	6	6
Larwm lladron wedi'i osod ar bwynt gadael	4	4	4
Larymau ymosodiad personol ar gyfer staff bregus ar y safle ac i ffwrdd o'r safle	4	4	4
Botymau panic ar gael yn gysylltiedig gyda system larwm ffin ac yn gweithio	6	6	6
Staff diogelwch ar y safle	8	8	8
Rhybuddion dim goddefgarwch ac argaeledd gwasanaethau. Adio sgôr ar gyfer graddiad risg wedi'i bwysoli	4	4	4
Adio sgôr ar gyfer Adnoddau Safle	+24	+12	+0

Cyfanswm Sgôr Personél a Hyfforddiant	Sgor
---------------------------------------	------

Cyfanswm 24 neu lai - DIFFYGIION DIFRIFOL yn yr adnoddau ar gyfer diogelwch personol

Cyfanswm rhwng 25 a 33 - Adnoddau diogelwch personol yn ANFODDHAOL

Cyfanswm o 34 neu fwy - Adnoddau diogelwch personol yn DDIGONOL adeg yr asesiad

Adran C: Polisiâu a Gweithdrefnau

Caiff diogelwch personol ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn yn y meysydd dilynol:	Fferyllfa Risg Isel	Fferyllfa Risg Canolig	Fferyllfa Risg Uchel
Lefelau staffio, oriau agor a darpariaeth gwasanaeth	6	6	6
Agor a chau'r safle	6	6	6
Weithio ar ben ei hun i ffwrdd o'r safle (dosbarthiadau, bancio, ymweliadau meddygfa, delio gyda gwastraff ac yn y blaen)	8	8	8
Cynnal a chadw cyson ar offer diogelwch	6	6	6
Gweithdrefnau til	5	5	5
Gweithdrefnau cysoni arian a bancio	5	5	5
Trin CDs	7	7	7
Derbyn phresgripsiynau a gweddillion	5	5	5
Adio sgôr ar gyfer Adnoddau Safle	+24	+12	+0

Cyfanswm sgôr ar gyfer Personél a Hyfforddiant	Sgor
--	------

Cyfanswm o 24 neu lai - DIFFYGION DIFRIFOL mewn polisiâu a gweithdrefnau

Cyfanswm rhwng 25 a 33 - Polisiâu a gweithdrefnau yn ANFODDHAOL

Cyfanswm o 34 neu drosodd - Polisiâu a gweithdrefnau yn DDIGONOL adeg asesu

Adran D: Rheoli Fferyllfa

Statws Rheoli Risg	Fferyllfa Risg Isel	Fferyllfa Risg Canolig	Fferyllfa Risg Uchel
Dihangfa ddigonol allan neu i ardal mwy diogel ar gael	7	7	7
Goleuadau digonol mewn ardaloedd mynediad i'r cyhoedd	10	10	10
Pob ardal allanol ac wyneb y siop yn lân a gyda goleuadau	10	10	10
Dim manau dall na fedrir eu hosgoi	7	7	7
Goleuadau digonol yn ardal staff ac ardaloedd cyfyngedig	7	7	7
Tiliau arian mewn safle yn achosi risg isel o ddwyn	7	7	7
Adio sgôr ar gyfer Adnoddau Safle	+24	+12	+0

Cyfanswm Sgôr Rheoli Fferyllfa	Sgor
--------------------------------	------

Cyfanswm o 24 neu lai - DIFFYGION DIFRIFOL wrth reoli'r safle

Cyfanswm rhwng 25 a 33 - Rheoli'r safle yn ANFODDHAOL

Cyfanswm o 34 neu fwy - Rheoli'r safle yn DDIGONOL adeg yr asesiad

ADRAN E: DIOGELWCH PERSONOL CYFFREDINOL

Cyfanswm Sgôr Asesu Risg Rheoli			
---------------------------------	--	--	--

Cyfanswm hyd at 104 - DIFFYGION DIFRIFOL wrth reoli diogelwch personol

Cyfanswm rhwng 104 a 133 - Risg diogelwch personol yn y safle yn ANFODDHAOL

Cyfanswm dros 134 - Risg diogelwch personol yn DDIGONOL adeg yr asesiad

A3. Sampl o dempled i'r cyflogwr

Annwyl [Enw Rheolwr neu Fferylllydd arolygol]

Ysgrifennaf atoch i fynegi fy mhryder am iechyd a diogelwch yn MANYLION Y FFERYLLFA.

Credaf fod materion yn ymwneud â fy niogelwch fy hun ac efallai ddiogelwch pobl eraill sy'n gweithio yno.

DEWIS A: Rwyf wedi cynnal asesiad risg diogelwch personol a, gan roi ystyriaeth, i'r mesurau sydd yn eu lle ar hyn o bryd, ymddengys i mi fod rhai diffygion mewn arferion, gweithdrefnau neu'r safle ei hun. Byddwn yn croesawu'r cyfle o rannu fy nghanfyddiadau gyda chi a nodaf y prif faterion yma.

DEWIS B: Rwy'n gwybod ein bod wedi trafod y materion yma eisoes ond ymddengys yn addas i roi crynodeb ohonynt yma i'ch helpu i fynd i'r afael â nhw cyn gynted ag sydd modd.

ENGHREIFFTIAU O FATERION I'W CODI

"Gan gadw mewn cof yr amser yr ydym yn cau ar ddiwedd y dydd, nid yw'n ddiogel caniatáu i ddim ond un person fod yn bresennol.

Er ei bod yn llai prysur ar ôl 6pm, mae'n amser pan mae llawer o'r cleifion methadon yn galw a chredaf y dylai fod mwy nag un person ar ddyletswydd yn ogystal â'r fferylllydd.

Nid yw'r system CCTV yn gweld holl ardaloedd bregus y stôr ac mae'r tapiau'n cael eu cylchdroi yn ddi-drefn.

Oherwydd bygythiadau a cham-drin diweddar a ddioddefodd nifer o'r staff, ymddengys yr hyfforddiant a'r gefnogaeth ar gael ymhell o fod yn ddigonol. Mae hyfforddiant annigonol yn arwain at ymddyfiad afresymol a rhywfaint o banic pan mae gwrthdaro gyda chlaf.

Rwy'n tynnu eich sylw at y materion hyn oherwydd fy mod yn bryderus am ddiogelwch pawb sy'n gweithio yma a hefyd oherwydd y deallaffod gennyf atebolrwydd dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch i fod yn rhagweithiol wrth ostwng risg.

Gobeithiaf y byddwch mewn sefyllfa i ymateb yn fuan.

Yn gywir"

A4. Sampl templed

DATGANIAD AR Y RISGIAU O DRAIS

Cynhaliwyd asesiad risg Trais mewn Fferyllfa yn fferyllfa ABC yn 123 Stryd Fawr ddydd Llun 3 Tachwedd 2016.

Asesiad Risg

Sefydlodd yr asesiad risg fod y Fferyllfa mewn categori RISG CANOLIG.

Rheoli Risg

Dangosodd yr asesiad rheoli risg fod angen mesurau ychwanegol ym meysydd

- a) yfforddiant staff
- b) Adnoddau
- c) Gweithdrefnau

Canlyniadau ymgynghori â staff

Fel canlyniad, ar ôl ymgynghori gyda'r staff, cytunwyd y gweithredid y mesurau dilynol;

- a) Cwblheir cynllun hyfforddiant staff erbyn 5 Rhagfyr 2017
- b) Gosodir drychau diogelwch mewnol erbyn 15 Ionawr 2018
- c) Adolygir gweithdrefnau agor a chau a gweithredir unrhyw welliannau a ddynodir erbyn 30 Tachwedd 2017.

Cynhelir yr Asesiad Risg nesaf ym mis Tachwedd 2017.

Llofnod

Y rheolwyr



| amddifyn eich new da |

| cynrychioli eich diddordebau |

AM Y PDA

Mae Cymdeithas Amddiffyn Fferyllwyr (PDA) yn sefydliad nid-er-elw sy'n anelu i weithredu ar a chefnogi anghenion fferyllwyr unigol a, phan fo angen, amddiffyn eu henw da. Mae ganddi fwy na 26,000 o aelodau ar hyn o bryd. Cafodd undeb y PDA ei sefydlu ym Mai 2008 a derbyniodd ardystiad annibynnol yn 2011.

Prif nodau'r PDA yw:

- Cefnogi fferyllwyr yn eu hanghenion cyfreithiol, ymarfer a chyflogaeth
- Cynrychioli pryderon unigol neu dorfol fferyllwyr yn y modd mwyaf addas
- Bod yn rhagweithiol wrth geisio dylanwadu ar yr agenda proffesiynol, ymarfer a chyflogaeth i gefnogi aelodau
- Arwain a chefnogi cynlluniau a gynlluniwyd i wella gwybodaeth a sgiliau fferyllwyr wrth drin risg ac arferion diogel, ac felly wella ofal cleifion
- Gweithio gyda sefydliadau o'r un anian i wella ymhellach fanteision aelodaeth i fferyllwyr unigol

Darparu sicrwydd yswiriant i ddiogelu ac amddiffyn enw da'r fferyllwyr unigol

Cysylltu â'r PDA

Cymdeithas Amddiffyn Fferyllwyr/The Pharmacists' Defence Association
The Old Fire Station
69 Albion Street
Birmingham B1 3EA

Gwybodeth gswllt

Ymholiadau Cyffredinol: 0121 694 7000

Ffacs: 0121 694 7001

Gwefan: www.the-pda.org

Email: enquiries@the-pda.org act